**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ/PO/365/2023

Llŷr Gruffydd MS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

27 Hydref 2023

Annwyl Llŷr,

**Bil Seilwaith (Cymru)**

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar 18 Hydref, cytunais i ysgrifennu at y Pwyllgor i ddarparu rhagor o wybodaeth ac eglurhad ynghylch sut y bydd y broses cydsynio seilwaith arfaethedig yn ystyried barn cymunedau arfordirol ar ddatblygiadau arfaethedig yn yr ardal forol.

Mae adran 33 o Fil Seilwaith (Cymru) yn nodi pwy sy'n cael eu hysbysu am gais ar dir ac yn ardal morol Cymru. Mae adran 35 yn nodi sut mae awdurdod cynllunio i ymateb i hysbysiad o'r fath. O dan y ddarpariaeth hon, rhaid i awdurdod cynllunio gyflwyno adroddiad ar yr effaith leol pan fydd yn cael ei hysbysu am gais am gydsyniad seilwaith yn ei ardal. Fodd bynnag, pan roddir hysbysiad i awdurdod am gais yn yr ardal forol, nid oes dyletswydd i ddarparu adroddiad ar yr effaith leol, er ei fod yn gallu cyflwyno adroddiad o'r fath os yw'n dymuno.

Y rheswm rwyf wedi dewis peidio â gosod dyletswydd ar awdurdodau cynllunio i gyflwyno adroddiad ar yr effaith leol ar gyfer datblygu yn yr ardal forol yw, yn wahanol i ddatblygiad ar dir, nid oes unrhyw ffiniau daearyddol clir ar gyfer awdurdodau cynllunio yn yr amgylchedd ar y môr. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd cyfiawnhau ei gwneud yn ofyniad gorfodol i awdurdodau cynllunio ddarparu adroddiad ar yr effaith leol, lle na fydd datblygu'n cael llawer o effaith ar ei ardal, os o gwbl.

At hynny, bwriedir i adroddiadau ar yr effaith leol fod yn ddogfennau ffeithiol, sy'n nodi unrhyw wybodaeth berthnasol a allai gael effaith ar ddatblygiad arfaethedig. Er enghraifft, gall hyn gynnwys hanes cynllunio'r tir, unrhyw ddynodiadau lleol ac unrhyw bolisïau cynllunio sy'n berthnasol yn lleol. Nid ydynt wedi'u cynllunio i fod yn ddull penodol o gasglu sylwadau a safbwyntiau gan gymunedau lleol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd datblygu ar y môr yn ddarostyngedig i'r un gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu â'r rheini ar gyfer datblygu tir, er y bydd y dulliau a ddefnyddir yn amrywio ychydig. Er enghraifft, ni fyddai'n bosibl arddangos hysbysiad safle ar y môr.

Bydd hyn yn helpu i sicrhau y bydd cymunedau arfordirol yn cael yr un cyfleoedd i adolygu datblygiad arfaethedig a chyflwyno sylwadau yn ei gylch ag unrhyw randdeiliaid a chymunedau lleol eraill.

Rwyf hefyd wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid i ddatblygu'r gofynion penodol ar gyfer sut y mae rhaid cynnal ymgyngoriadau er mwyn sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn cael cyfle i gymryd rhan yn y broses.

Os oes angen eglurhad pellach arnoch ynglŷn â'r mater hwn, byddwn yn hapus i ysgrifennu at y Pwyllgor eto.

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change